# The Landmark Trust

**DOLBELYDR, TREFNANT**

Mae Dolbelydr i'w drysori am ddau brif beth. Mae'n enghraifft wych o faenordy cerrig o'r unfed ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi heb fawr ddim newidiadau. Hefyd dyma lle ysgrifennodd Henry Salesbury (1561 - c1605), meddyg ac ysgolhaig, ei Grammatica Britannica, a gyhoeddwyd yn 1593. Y Grammatica oedd un o'r ymgeisiadau cyntaf i lunio gramadeg ffurfiol y Gymraeg. Prin yw'r manylion am fywyd Henry Salesbury, er yr ymddengys ei fod yn perthyn i'r teulu Salusbury, un o'r teuluoedd mwyaf pwerus a chefnog yn Sir Ddinbych yr unfed ganrif ar bymtheg.

Yn wreiddiol, byddai Dolbelydr wedi bod yn dŷ o gryn statws, wedi ei wneud o galchfaen graenus gyda simneiau tal. Mae dadansoddi'r pren yn dynodi fod y dyddiad adeiladu oddeutu 1578 ac mae'r cynllun yn un arloesol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Byddai'r simneiau ar y talcenni a'r prif risiau sbeiral wedi cael eu hystyried yn arloesol iawn, yn ogystal â'r cyntedd mynedfa petryal â'i sgrîn estyll a mwntin (yn hytrach na'r trefniant cyntedd croes mwy arferol). Dirywiodd statws Dolbelydr dros y blynyddoedd a gwnaed gwahanol newidiadau yno. Bu'n wag ers tua 1912.

Ymwelodd y Landmark Trust â Dolbelydr am y tro cyntaf yn 1982. Sylweddolwyd ei arwyddocad fel un o 'dai coll' Cymru ers cryn amser ond y prif rwystr i'w gaffael oedd y diffyg ffordd fynedfa – ar rai adegau aed i'r adeilad ar stiltiau o ochr arall yr Afon Elwy! Rydym yn ddiolchgar i Mr Roberts, y ffermwr sy'n berchen ar y tir lle saif Dolbelydr, am gytuno i werthu'r adeilad a lôn fynedfa iddo i ni yn 1999. Fe'n galluogwyd i brynu'r adeilad drwy rodd hael yn ewyllys Dorothy Stroud. Erbyn yr adeg y gwnaethom ni gael y tŷ roedd y to wedi dymchwel. Cafodd popty bara a grisiau allanol eu difa ac roedd y sgrîn solar ar y llawr cyntaf wedi'i symud i dŷ yng Nghaer, ac mae'n dal yno hyd heddiw. Gosodwyd sgaffaldau ar unwaith, er ei bod yn ddwy flynedd arall cyn i ni godi'r arian angenrheidiol ar gyfer adfer yr adeilad.

Ein barn ddechreuol oedd fod hwn yn yn adeilad gwerinol diddorol iawn, yn arbennig oherwydd ei nodweddion heb eu newid i raddau helaeth. Argyhoeddwyd ni'n fuan gan yr hanesydd adeiladau lleol Peter Welford fod hwn wedi bod yn dŷ o gryn statws yn yr ardal, gyda'i simneiau uchel a cherrig trwsiadus. Arweiniodd hyn at gryn dipyn o grafu pen ynghylch sut y dylid ei adfer: roedd y ffabrig diweddarach wedi mynd a'i ben iddo yn fwy na'r deunydd cynharach pren caled. Yn y diwedd penderfynasom gyda'n pensaer Andrew Thomas, gan fod arwyddocad pensaernïol a hanesyddol Dolbelydr yn deillio o'i ffurf diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, dylem ei gyflwyno ar ffurf mor agos â phosibl i'w ymddangosiad gwreiddiol.

Safai'r ty ynghanol clwstwr o waliau ac adeiladau fferm ar un adeg. Mae waliau'r buarth blaen wedi'u hailadeiladu ar sylfeini'r waliau gwreiddiol ac maent yn nodweddion nodweddiadol o adeiladau yn Sir Ddinbych yr adeg honno. Fel oedd yn arferol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, mae'r waliau wedi cael eu pwyntio a'u gwyngalchu unwaith eto. Roedd yn rhaid ailadeiladu'r rhan fwyaf o'r waliau o lefel y bondo. Roedd llawer o fframwaith y llawr cyntaf yn dal i fod ar y safle yn ogystal â pheth o fframwaith yr ail lawr felly nid oedd adnewyddu trawstiau'r llawr yn rhy anodd. Roedd y to wedi dymchwel yn dasg fwy, ac isgontractiwyd y gwaith i arbenigwyr a aeth a phrenau'r to i'w iard fframio yn Swydd Perth. Yno gwnaethant ailosod ffram y to.

Yn niwedd Hydref 2002, daeth craen deugain troedfedd ar y safle i godi'r tri trawst to anferthol yn ôl i'w lle. Defnyddiwyd teils carreg i oruchddio'r to, yn unol â'r gwreiddiol. Roedd awgrym o ffenestr yn y to yn y tu ôl, ac rydym wedi ailgreu hyn a bellach mae gan yr adeilad set lawn o ffenestri maint cywir yn eu lleoliadau gwreiddiol, gyda nifer ohonynt â 12 neu 14 mwliwn, sy'n brin iawn. Mae'r rhain wedi'u gwyngalchu unwaith eto hefyd, i efelychu carreg. Y tu mewn mae

The Landmark Trust Shottesbrooke Maidenhead Berkshire SL6 3SW
*Charity registered in England & Wales* 243312 *and Scotland* SC039205

*Bookings* 01628 825925 *Office* 01628 825920 *Facsimile* 01628 825417 *Website* www.landmarktrust.org.uk

cynllun Dolbelydr yn eithaf nodweddiadol o dŷ mynedfa ochrol, ac eithrio'r cyntedd mawr i'r chwith o'r drws blaen sy'n anaferol.

Treuliwyd cryn dipyn o amser yn ystyried sut i newid tu mewn yr adeilad i'w ddefnyddio gan Landmark, tra'n parchu gymaint o'r cynllun gosod a'i ddiben gwreiddiol ag y bo modd. Roeddem yn hyderus y gallem ailosod y sgrîn yn y cyntedd â'i ddrysau bwa Tuduraidd, gan arwain at ofyn am ganiatâd i gael gwared o raniadau diweddarach. Dychwelwyd postyn gwreiddiol y grisiau sbeiral gan unigolyn cydwybodol yn ystod un diwrnod agored. Mewn gwirionedd, mae culni'r grisiau hyn yn eu gwneud yn anymarferol ar gyfer unrhyw beth ac eithrio mynd yn ôl mewn amser, felly rydym wedi gosod grisiau derw newydd yn y lleoliad lle roedd tystiolaeth o rai blaenorol. Ar wahân i'r ail set o risiau, adferwyd y cynllun gosod gwreiddiol i raddau helaeth. Saif yr ystafell gawod yn yr hyn oedd yn fan gweini unwaith a'r ystafell wely ar y llawr gwaelod yn yr hyn fyddai wedi bod yn barlwr yn wreiddiol.

Er y byddai'r neuadd wedi dod yn llai o fan cymunedol erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, byddai'n parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer coginio ac felly gwnaethom benderfynu creu cegin ar ffurf ynys yng nghorff y neuadd. Mae'r llawr llechi yn cynnwys llawer o'r rhai gwreiddiol ond bu'n rhaid adnewyddu rhai ohonynt. Gosodwyd system wresogi dan y llawr. Daethom o hyd i'r trawst bressumer ar ganol y llawr – tybiwn fod rhywun wedi ceisio'i ddwyn ond wedi canfod ei fod yn rhy drwm i'w symud ymhell. Byddai'r trawstiau uwchben yr aelwydydd wedi'u plastro'n wreiddiol; er mwyn osgoi colli'r stopiau wedi'u mowldio'n gain penderfynasom eu gwyngalchu. Cafodd y cwpwrdd i'r chwith o'r lle tân ei ailwneud â phanel awyru plethwaith, gan ddefnyddio ffotograff o'r 1970au a darnau y daethpwyd o hyd iddynt o gwmpas yr ystafell (yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debyg). Roedd y siafft ar y dde i'r lle tân yn garderobe yn flaenorol, gyda mynediad iddo o'r ystafell solar. Canfuwyd un darn o wydr siâp diamwnt ynghanol adfeilion y tŷ, ac fel llawer o wydr cynnar, roedd yn wyrdd hynod o dywyll. Mae'r gwydr yn y ffenestri heddiw'n rhai â gwawr o wyrdd, wedi'i wneud yn Ffrainc. Mae'n bosibl fod y llawr llechi ar y llawr cyntaf yn wreiddiol, ond bu'n rhaid adnewyddu nifer o'r darnau llechi. Bydd y rhai craff yn sylwi ar ddau gymeriad o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u crafu ar y sgrîn, ar yr ochr sy'n wynebu'r cyntedd wrth ymyl y drws – un yn dangos milwr â phluen yn ei het a'r llall yn dangos ei gariad o bosibl.

Canfuwyd fod yr holl furiau mewnol yn yr adeilad yn rhai plethwaith a chlai yn hytrach na'r plastr calch mwy arferol, a dyma a ddefnyddiwyd ar gyfer y muriau. Mae darnau o'r gorchudd plastr calch cynharach yn goroesi mewn sawl man drwy'r adeilad, ac rydym wedi ceisio ailgreu hyn. Mae rhaniadau'r llawr cyntaf a'r ail lawr yn dilyn llinell y rhaniadau gwreiddiol i raddau helaeth, yn ôl tystiolaeth y fframwaith, a gosodwyd lloriau derw newydd. Mae'r holl drawstiau bron wedi'u gwyngalchu. Yn wreiddiol byddai'r ystafell solar, a'r brif ystafell wely hefyd efallai, wedi'u haddurno'n lliwgar gyda phaentiadau ar y wal yn efelychu darluniau. Byddai'r prenau wedi bod yn newydd a ffres. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd arwyneb mwyafrif y prenau a adferwyd yn arw ac wedi pydru felly penderfynwyd eu paentio i mewn. Yr ystafell solar ar y llawr cyntaf (ystafell fyw Landmark heddiw) yw'r ystafell odidocaf yn y tŷ, gydag urddas ychwanegol yn deillio o fod yn agored hyd at y to drwy gyfrwng y ffrâm fwa. Gall ymwelwyr heddiw ddod i lawr y grisiau sbeiral yn union fel y byddai Henry Salesbury wedi'i wneud a syllu fel yntau drwy'r gwydr ag arlliw gwyrdd o Ddolbelydr i lawr y dyffryn. Yn union fel y tŷ, does fawr ddim wedi newid o ran yr olygfa hon dros y pum can mlynedd diwethaf.

*Mae'r Landmark Trust yn elusen sy'n adfer adeiladau hanesyddol wedi'u hesgeuluso a fyddai'n cael eu colli fel arall, ac yn rhoi dyfodol newydd iddynt drwy eu cynnig fel llety gwyliau. Mae achub rhagor o adeiladau mewn perygl o fynd i ddifancoll yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau gwirfoddol, a gellir cyfrannu drwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar flaen y daflen hon. Gall hyd at 6 o bobl gysgu yn Dolbelydr. I logi'r adeilad hwn neu unrhyw adeilad arall o'r eiddo Landmark cysylltwch â ni.*